The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Nodyn cyfarfod

| | |
|---|---|
| **Enw'r prosiect** | Fferm Wynt ar y Môr Awel y Môr |
| **Cyfeirnod y ffeil** | EN010112 |
| **Statws** | **Terfynol** |
| **Awdur** | Yr Arolygiaeth Gynllunio |
| **Dyddiad** | 23 Ionawr 2020 |
| **Cyfarfod gydag** | Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited |
| **Lleoliad** | Temple Quay House |
| **Amcanion y cyfarfod** | Cyfarfod Cychwynnol |
| **Cylchrediad** | Pawb a oedd yn bresennol |

## Crynodeb o'r pwyntiau allweddol a drafodwyd a'r cyngor a roddwyd

Cynghorodd yr Arolygiaeth Gynllunio (yr Arolygiaeth) y byddai nodyn o'r cyfarfod yn cael ei wneud a'i gyhoeddi ar ei gwefan yn unol ag adran 51 Deddf Cynllunio 2008. Ni fyddai unrhyw gyngor a roddid o dan adran 51 yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol y gallai ymgeiswyr (neu eraill) ddibynnu arno. Esboniodd yr Arolygiaeth y gellid gohirio cyhoeddi'r nodyn o'r cyfarfod am hyd at chwe mis (pe byddai ymgeisydd yn gofyn am hynny am resymau masnachol), neu hyd nes bod cais cwmpasu ffurfiol wedi cael ei gyflwyno.

### Y Datblygiad Arfaethedig

Mae'r datblygiad arfaethedig wedi'i leoli rhyw 12 km oddi ar arfordir Llandudno ac i'r gorllewin o fferm wynt ar y môr bresennol Gwynt y Môr, a bydd yn ymestyn ar hyd ardal fwyaf o 106 $km^2$. Er nad yw'r math o dyrbin ar gyfer y Prosiect wedi cael ei ddewis eto, disgwylir iddo fod â chapasiti cynhyrchu o fwy na 500MW. Disgwylir i Awel y Môr gysylltu â'r Grid Cenedlaethol ym Modelwyddan, lle mae gan brosiect fferm wynt ar y môr Gwynt y Môr gysylltiad hefyd. Mae llwybrau'r ceblau ar y môr ac ar y tir, lleoliad y lanfa a lleoliad is-orsaf y prosiect i'w penderfynu. Cadarnhawyd bod yr Ymgeisydd wedi cael cynnig grid gan y Grid Cenedlaethol. Cadarnhawyd bod angen i'r Prosiect gael Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) a Thrwydded Forol gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r Ymgeisydd yn bwriadu gwneud cais am y ddau ar yr un pryd.

### Llinell amser arfaethedig y prosiect

- Cwmpasu/Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) – canol mis Mawrth 2020
- Ymgynghori ar opsiynau lleoli seilwaith trawsyrru – Q2 2020
- Ymgynghoriad statudol a42/a47 – Q3/Q4 2021
- Cyflwyno cais DCO - Q2 2022
- Penderfyniad ar y cais DCO - Q3 2023

## Caffael Gorfodol a Thir y Goron

Cadarnhawyd y bydd y DCO yn cynnwys pwerau caffael gorfodol ac y disgwylir i'r brydles gydag Ystad y Goron gael ei chytuno yn ystod chwarter 1af 2020.

## Cwmpas y Datganiad Amgylcheddol

Esboniodd yr Ymgeisydd sut oedd yn bwriadu mynd ati i gwmpasu, ac fe'i cynghorwyd y dylai'r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad cwmpasu fod yn gyson drwyddo draw. Argymhellodd yr Arolygiaeth na ddylai'r Ymgeisydd gynnwys ei gwestiynau ei hun wrth gwmpasu, gan fod hyn yn gallu drysu ymgyngoreion yn yr hyn sy'n broses ymgynghori statudol a gynhelir gan yr Arolygiaeth.

Dywedodd yr Arolygiaeth wrth yr Ymgeisydd y bydd angen iddi gael shapefile y prosiect 10 niwrnod gwaith cyn i'r Adroddiad Cwmpasu gael ei gyflwyno.

## Asesu Effeithiau Amgylcheddol (EIA)/HRA a chydsyniadau eraill

Trafododd yr Ymgeisydd y gofyniad i wneud cais ar wahân am Drwydded Forol gan fod y cynllun wedi'i leoli yng Nghymru, a sut y byddai hyn yn gweithio o ran y cais DCO a'r asesiadau EIA a HRA perthnasol. Cytunodd yr Arolygiaeth i geisio cydlynu'r asesiadau hyn, gan gynnwys egluro'r amseru a'r ymagwedd at ystyriaeth fanwl. Esboniodd yr Ymgeisydd ei fod yn bwriadu cyflwyno'r ceisiadau DCO a Thrwydded Forol ar yr un pryd, ac i'r Drwydded Forol gael ei chaniatáu o fewn mis o ganiatáu'r DCO.

Dywedodd yr Ymgeisydd wrth yr Arolygiaeth ei fod wedi cynnal blwyddyn o waith arolygu ar y môr ac y byddai'r arolygon geoffisegol ar y môr yn dechrau yn hwyrach yn 2020.

## Cynllun Tystiolaeth

Mae'r Ymgeisydd wedi rhoi cylch gorchwyl a rhaglen ar gyfer y prosiect i'r cyrff statudol sy'n ymwneud â'r broses. Dywedodd yr Arolygiaeth wrth yr Ymgeisydd na fyddai'n cadeirio cyfarfodydd y Cynllun Tystiolaeth, ond y byddai'n bresennol ynddynt ac yn gweithio gyda'r cyrff perthnasol yn unol â'r protocol cyn-ymgeisio.

## Y Gymraeg

Cadarnhaodd yr Ymgeisydd ei fod yn ymwybodol o ddeddfwriaeth yn ymwneud â'r Gymraeg a phwysigrwydd yr iaith. Mae'r Ymgeisydd yn bwriadu cyfieithu dogfennau annhechnegol y cais, fel y Crynodeb Annhechnegol o'r Datganiad Amgylcheddol, gan ddilyn enghreifftiau diweddar o Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP) yng Nghymru. Mae sawl siaradwr Cymraeg yn nhîm yr Ymgeisydd hefyd.

## Unrhyw Fater Arall

## Gwaith dilynol

- Gofynnir i'r Ymgeisydd roi cylch gorchwyl y Cynllun Tystiolaeth i'r Arolygiaeth.